



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB A GWLEDIGRWYDD

Cyflwyniad

Er nad yw gwledigrwydd yn nodwedd warchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gall y materion i bobl hŷn sy'n codi o fyw mewn ardal wledig gael effaith uniongyrchol ar eu llesiant a'u ffordd o fyw.

Mae Powys, Ceredigion, Gwynedd, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn yr ugain ardal leiaf dwys eu poblogaeth o blith y cyfan o'r 348 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Does dim data manwl-gywir ar gael ynglŷn â Chymru, ond yn 2012 amcangyfrifodd y Comisiwn Cymunedau Gwledig fod 23% o'r boblogaeth wledig yn 65 oed a trosodd, o'i gymharu â 18% mewn ardaloedd trefol.

Y materion

I lawer o bobl hŷn, mae ymddeol i bentref bach neu ardal wledig yn syniad cadarnhaol ac yn un i'w groesawu. Ond, os bydd eu hamgylchiadau'n newid gall profiad heneiddio droi'n brofiad negyddol yn bur gyflym. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i bobl hŷn ddatblygu anghenion ychwanegol sy'n golygu bod angen darpariaeth gwasanaethau mwy cymhleth gan yr asiantaethau cyhoeddus.

Un broblem a welodd y Comisiwn Cymunedau Gwledig oedd y diffyg ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn yng nghefn gwlad. Mae Comisiwn Archwilio Lloegr o'r farn bod y rhai sy'n ffurfio strategaethau ym maes cynllunio tai wrthi'n defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ddibyniaeth, sef ymagwedd nad yw'n addas iawn i bobl hŷn.

Mae arwyddion bod pobl hŷn yng nghefn gwlad yn iachach. Ond mae angen gwneud mwy i'w helpu i fyw'n annibynnol ac i greu cymunedau sy'n 'gydnaws ag oedran'. Mae pobl hŷn yn debycach o fod yn

berchnogion cartrefi ond maen nhw'n tueddu i fyw mewn cartrefi hŷn ac felly mae'n hanfodol bod gwasanaethau ar gael gan 'asiantaethau gwella cartrefi' yng nghefn gwlad. Mae cyfle annibynnol i ddefnyddio cludiant yn fater holl-bwysig i bobl hŷn yng nghefn gwlad ond gall gwahaniaethu ar sail oed yn y sector gwasanaethau ariannol, yn enwedig felly o ran yswiriant, olygu bod yr angen hwn yn un drud. Gall dibyniaeth ar danwydd at wres, o'i gyferbynnu â chysylltiad â'r system nwy, gyfrannu at dlodi tanwydd ymysg pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i'r dirywiad mewn gwasanaethau lleol fel banciau a swyddfeydd post gael ei weld yn nhermau erydu'r seilwaith ar gyfer darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor. Rhaid i dechnoleg gael ei defnyddio'n well er mwyn rhoi gwasanaethau i bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig. Er bod yna fwy o ddefnyddio ar dechnolegau cymorth, byddai gwell darpariaeth band-eang yng nghefn gwlad yn hwyluso mwy o ddefnyddio ar dechnoleg ddigidol.

Mae talu am ofal yn gymaint o broblem i bobl hŷn cefn gwlad ag i bobl hŷn mewn mannau eraill ond mae angen ystyried yr opsiynau ym maes tai sydd ar gael i'r rhai mewn ardaloedd gwledig a hoffai symud i rywle llai o faint. Bydd rheoliadau cynllunio ar leiniau glas ac yn y parciau cenedlaethol yn creu effaith ar ddatblygu cartrefi ymddeol. Gelid ystyried y posibilrwydd o droi cartrefi ar y cyd a safleoedd gofal ychwanegol neu safleoedd cysgodol yn 'ganolfannau cefn gwlad' i bobl hŷn.

Casgliadau

Ceir mwyfwy o gydnabyddiaeth bod angen i wasanaethau pobl hŷn gael ei hintegreiddio ar draws tai, iechyd a gofal cymdeithasol ac mae yna fwyfwy o symudiadau at gyfuno'r polisiâu yn y meysydd hyn mewn ardaloedd trefol. Rhaid gwneud yr un fath mewn cymunedau gwledig er mwyn hwyluso a chefnogi teleofal, addasiadau yn y cartref a gwasanaethau rhyddhau o'r ysbyty. Yr un yw anghenion pobl hŷn yng nghefn gwlad ac yn y trefi, ond mae bod yn anghysbell yn eu dwysáu. Cludiant yw'r ddolen gysylltu gyffredin ar draws pob maes polisi a gwasanaeth a rhaid mynd i'r afael â hyn ar fyrder.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i www.olderpeoplewales.com